



BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL CAERDYDD A BRO MORGANNWG

10.00 am – 12.30 pm, Dydd Gwener 9 Mehefin 2017

**Cynhelir yn yr Ystafell Gynhadledd, Potter's House, Neuadd Hebron,
Dinas Powys, CF64 4YB**

Cofnodion y Cyfarfod

Presenoldeb

Sam Austin	Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Gweithredol, Llamau
Maria Battle	Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Suzanne Clifton	Pennaeth Gwasanaeth, Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Bro Morgannwg (yn cynrychioli Lance Carver)
Rachel Connor	Prif Swyddog Gweithredol, Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg
Y Cynghorydd Susan Elsmore (Cadeirydd)	Aelod Cabinet, Gofal Cymdeithasol ac Iechyd, Cyngor Dinas Caerdydd
Jeff Hawkins	Prif Weithredwr, Age Connects Caerdydd ac Is-gadeirydd Age Alliance Cymru
Sheila Hendrickson-Brown	Prif Swyddog Gweithredol, Cyngor Trydydd Sector Caerdydd
Y Cynghorydd Graham Hinchey	Aelod Cabinet dros Blant a Theuluoedd, Cyngor Dinas Caerdydd
Estelle Hitchon	Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu, Ymddiriedaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru
Sharon Hopkins	Prif Weithredwr Interim, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Y Cynghorydd Gordon Kemp	Yr Aelod Cabinet ar gyfer Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Hamdden, Cyngor Bro Morgannwg
Marcus Longley	Is-gadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Y Cynghorydd Andrew Parker	Yr Aelod Cabinet ar gyfer Tai a Gwasanaethau Adeiladu, Cyngor Bro Morgannwg
Malcolm Perrett	Is-gadeirydd, Fforwm Gofal Cymru
Rob Thomas	Rheolwr Gyfarwyddwr, Cyngor Bro Morgannwg
Tony Young	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Dinas Caerdydd
Ysgrifennydd	
Rachel Armitage	Swyddog Cymorth Partneriaeth, Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Caerdydd a Bro Morgannwg
Meredith Gardiner	Rheolwr Rhaglenni, Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Caerdydd a Bro Morgannwg
Rachel Jones	Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Caerdydd a Bro Morgannwg

Drwy wahoddiad

Judith Hill	Pennaeth Gofal Integredig, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Jane Thomas	Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Tai a Chymunedau, Cyngor Dinas Caerdydd
Pam Toms	Arweinydd Tîm Datrysiadau Tai a Chefnogi Pobl, Gwasanaethau Tai, Cyngor Bro Morgannwg

Ymddiheuriadau

Lance Carver	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Bro Morgannwg
Abigail Harris	Cyfarwyddwr Cynllunio a Strategaeth, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
James Livingstone	Cynrychiolydd Gofalwr
Paul Orders	Prif Weithredwr, Cyngor Dinas Caerdydd
Andrew Templeton	Prif Weithredwr, YMCA Caerdydd
Y Cynghorydd John Thomas	Arweinydd Cyngor Bro Morgannwg

Rhif Cofnod	Cofnod	Cam Gweithredu/ Dyddiad Cau
BPRh 048	<p>1. CROESO A SYLWADAU AGORIADOL</p> <p>Croesawodd y Cadeirydd aelodau newydd i'r BPRh, gan amlygu pa mor bwysig yw'r gwaith i integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol, parhau â'r cyflawniadau a wnaed ers Ebrill 2016, gan gynnwys ymateb i'r Asesiad Anghenion Poblogaeth.</p>	
BPRh 049	<p>2. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL A MATERION YN CODI</p> <p>CYMERADWYWYD cofnodion 21 Mawrth 2017 fel cofnod cywir YN UNOL â'r diwygiad bach canlynol: Cael gwared â'r cam gweithredu a neilltuwyd i Suzanne Clifton i godi'r mater gofalwyr ifanc gyda chydweithwyr Addysg yng Nghyngor Bro Morgannwg. Cadarnhaodd S Clifton bod dialog parhaus â chydweithwyr Addysg, gan gynnwys ar y pwnc gofalwyr ifanc.</p> <p><u>Log Gweithredu</u> BPRh 038: Y Cynghorydd Lent i godi'r mater gofalwyr ifanc gydag Adran Addysg Cyngor Dinas Caerdydd – mater i'w drin gan y Cynghorydd Graham Hinchey yn dilyn newid o ran cyfrifoldebau'r Cabinet. Cytunwyd y byddai diweddariad ar ofalwyr ifanc yn cael ei drafod gan y Grŵp Arweinyddiaeth Strategol (GAS) yn ei gyfarfod ar 6 Gorffennaf.</p> <p>Mae'r holl gamau eraill yn gyflawn neu ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod hwn ac nid oedd unrhyw faterion yn codi pellach. CYMERADWYWYD y statws Log Gweithredu yn unol â'r diwygiad bach a amlygir uchod.</p> <p>Camau Gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Diwygio'r cofnodion a'r cynllun gweithredu yn gysylltiedig â chysylltiadau ag addysg. ➤ Codi'r mater gofalwyr ifanc gyda'r Cynghorydd Graham Hinchey i'w drafod gydag Adran Addysg Cyngor Caerdydd. ➤ Parhau â threfniadau ar gyfer trafod gofalwyr ifanc yn y GAS ar 6 Gorffennaf 2017. 	<p>RA Yr Ysgrifenyddiaeth</p> <p>Yr Ysgrifenyddiaeth</p>
BPRh 050	<p>3. CYLCH GORCHWYL</p> <p>Gosododd y Cynghorydd Elsmore y cyd-destun ar gyfer yr arweinyddiaeth a rennir rhwng y ddau awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd Prifysgol mewn</p>	

	<p>perthynas â rôl y Cadeirydd. Mae'r Cylch Gorchwyl yn cynnwys tymor dwy flynedd i Gadeiryddion. Cynigiodd y Cynghorydd Elsmore barhau fel Cadeirydd y BPRh cyhyd â bod y Bwrdd yn cytuno, gyda Maria Battle a'r Cynghorydd John Thomas wedi'u cadarnhau fel Is-gadeiryddion.</p> <p>Cymeradwyodd y BPRh y Cadeirydd a'r Is-gadeiryddion, cyhyd â bod y Cynghorydd John Thomas nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod yn cytuno.</p> <p>Nodwyd fod y Cylch Gorchwyl wedi'i addasu yn adran 6 o ran datrys anghydfod mewn ymateb i gyfarwyddyd Llywodraeth Cymru gyda chyfeiriad penodol at y Gronfa Gofal Integredig.</p> <p>Trafodwyd y pwyntiau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwneud trefniadau i wadd y Cynghorydd Lynda Thorne, Aelod Cabinet ar gyfer Tai a Chymunedau, Cyngor Caerdydd i gyfarfodydd y dyfodol i sicrhau bod yr adran dai yn cael ei chynrychioli yn dilyn newidiadau o ran cyfrifoldebau portffolio yn y Cabinet. • Y berthynas rhwng y BPRh a'r Grŵp Arweinyddiaeth Strategol a'r angen i sicrhau bod y BPRh yn gwbl ymwybodol o'r gwaith a wneir gan y GAS. • Yr her o ddiwallu holl ofynion y Ddeddf o fewn pedwar cyfarfod BPRh y flwyddyn a chymorth ar gyfer gweithdai 'anffurfiol' ychwanegol. • Yr angen am amser i ddatblygu arloesiadau mewn ymateb i ddata a thystiolaeth • Yr angen i aelodau'r BPRh ddeall sut mae'r gweithdai yn sail i gynllun gwaith y BPRh a thrafodaethau cysylltiedig yn y GAS • Yr angen i alluogi aelodau'r BPRh gyrchu deunyddiau a thrafodaethau heb fynychu cyfarfodydd ychwanegol, gan nodi bod y cynllun gwaith yn gosod blaenoriaethau'r BPRh <p>Y BPRh:</p> <ul style="list-style-type: none"> • CYMERADWYD y Cylch Gorchwyl diwygiedig CYHYD â bod yr Aelod Cabinet ar gyfer Tai a Chymunedau yng Nghyngor Dinas Caerdydd yn cael ei gynnwys yn yr aelodaeth. • CYTUNWYD ystyried rheoli'r berthynas rhwng y BPRh a'r GAS mewn sesiwn gweithdy BPRh yn y dyfodol. <p>Cam Gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Cadarnhau bod y Cynghorydd John Thomas yn fodlon bod yn Is-gadeirydd ar y BPRh ➤ Gwneud trefniadau i'r Cynghorydd Thorne gael ei wadd i gyfarfodydd yn y dyfodol; ➤ Cynnwys sefydlu cysylltiadau rhwng y BPRh a'r GAS fel pwnc i'w ystyried mewn sesiwn gweithdy BPRh yn y dyfodol. 	<p>Ysgrifennydd Yr Ysgrifenyddiaeth Yr Ysgrifenyddiaeth</p>
BPRh 051	<p>4. RHAGLEN WAITH Y BPRh</p> <p>Amlygodd y Cynghorydd Elsmore bod y rhaglen waith yn gweithredu fel fframwaith ar gyfer diweddariadau chwarterol i'r BPRh. Cadarnhaodd Rachel Jones bod y cynllun gwaith yn ceisio nodi'r holl waith sydd ar y gweill ar draws y Bartneriaeth, ei fod yn cael ei ddiweddarau bob chwarter a'i fod yn sail i agenda'r BPRh a'r Adroddiad Blynyddol. Mae'n ddogfen ddynamig lle gellir ychwanegu blaenoriaethau newydd eraill iddi.</p>	

	<p>Trafodwyd y pwyntiau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yr angen am lefelau ffocws priodol ar yr her cyd-weithlu strategol, gan nodi'r angen i sicrhau bod y bobl gywir ar gael i roi'r gwasanaethau cywir yn y ffordd gywir. • Cadarnhawyd mai'r Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n gyfrifol am yr holl waith o ran datblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol. Tony Young yw Cadeirydd y Bartneriaeth Gweithlu Rhanbarthol ar hyn o bryd, cyflwyniad a roddwyd i gyfarfod diwethaf y GAS. • Y problemau sylweddol sydd y tu hwnt i reolaeth y BPRh, gan gynnwys agwedd LIC o ran contractau dim oriau a'r prosesau comisiynu cyfredol o ran cyd-destun Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru). • Yr angen am strategaeth ranbarthol ar y cyd clir ar gyfer y gweithlu gan gynnwys deall yr heriau rhyng-gysylltiedig i bartneriaid ar draws y rhanbarth • Pwysigrwyd sicrhau defnydd gorau o asedau gan gynnwys pobl, cerbydau, adeiladau a thechnoleg • Cytunwyd y dylai materion gweithlu fod yn bwnc ar gyfer gweithdy BPRh gyda'r nod o sefydlu strategaeth drosfwaol ar gyfer y gweithlu ar draws y rhanbarth. • Dylai meysydd eraill ar gyfer sesiynau gweithdy gynnwys atal, ymgysylltiad cymunedol, a thai. <p>Y BPRh:</p> <ul style="list-style-type: none"> • CYMERADWYWYD y rhaglen waith ar gyfer 2017/18 CYHYD â bod pwyslais cynyddol ar faterion gweithlu. <p>Cam Gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Dylai'r cynllun gwaith gael ei ddiweddarau i gynnwys pwyslais cynyddol ar y gweithlu. ➤ Y pwnc Gweithlu i gael ei gynnwys fel ffocws mewn sesiwn datblygu'r BPRh yn y flwyddyn i ddod. ➤ 	<p>Ysgrifennydd</p> <p>Yr Ysgrifenyddiaeth</p>
BPRh 052	<p>5. SESIYNAU DATBLYGU</p> <p>Cadarnhaodd y Cynghorydd Elsmore bod dyddiadau gweithdy wedi'u nodi ac y bydd dyddiadau'n cael eu dosbarthu cyn bo hir. Gwahoddwyd aelodau i drafod blaenoriaethau i'w hystyried fel gweithdai.</p> <p>Trafodwyd y pwyntiau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yr angen i ddatblygu strategaeth i reoli'r trefniadau comisiynu ar gyfer gwasanaethau anabledau dysgu • Y manteision sy'n bosibl o ddiffinio a gwella cyswllt dinasyddion • Cydweithio ar draws yr holl wasanaethau ar optimeiddio'r defnydd o asedau a safleoedd, gan nodi'r effaith ar heriau llety o ran llif clefion a rôl y cymdeithasau tai fel darparwyr allweddol • Gwasanaethau ataliol <p>Penderfynodd y BPRh:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y dylai'r gweithdai ystyried y gweithlu, anabledau dysgu, tai a llety, cyswllt dinasyddion, asedau, a gwasanaethau ataliol. <p>Cam gweithredu:</p>	

	<p>➤ Gweithdai i'w trefnu yn unol â'r pynciau y cytunwyd arnynt uchod.</p>	<p>Yr Ysgrifenyddiaeth</p>
<p>BPRh 053</p>	<p>6. DIWEDDARIAD AR GYLLIDEBAU CYFUN A CHYD-GOMISIYNU'R GWASANAETHAU POBL HÏN</p> <p><u>Y Diweddaraf a'r Sefyllfa Gyfredol</u> Rhoddodd Rachel Jones ddiweddariad ar y gweithgarwch cyd-gomisiynu a gynhaliwyd ers i'r BPRh gwrdd ym Mawrth, gan nodi mai'r prif flaenoriaeth oedd ar gyfer y gwasanaethau pobl hÿn. Cadarnhawyd bod gwaith wedi'i wneud i sefydlu sylfaen ar gyfer gwasanaethau pobl hÿn a mapio darpariaeth a chostau gwasanaethau. Mae data a gasglwyd wedi dangos bod y cyfanswm gwariant yn y rhanbarth yn fwy na £220 miliwn y flwyddyn, gan ddangos yr angen i ail-alinio gwasanaethau ac addasu modelau darpariaeth.</p> <p><u>Datganiad Drafft o Fwriad – Pobl Hÿn</u> Cyflwynodd Rachel Jones y Datganiad Drafft o Fwriad, yn cadarnhau'r amcan i ddatblygu dull cyffredin ar draws y partneriaid statudol, wedi'i alinio gyda'r strategaeth "Llunio ein Lles yn y Dyfodol", gyda'r nod o ddatblygu model atal i leihau cynnydd o ran angen. Amlygwyd y bydd y ddogfen ddrafft yn cael ei thrafod mewn gweithdy penodol ar 5 Gorffennaf 2017.</p> <p><u>Datganiad o Sefyllfa'r Farchnad</u> Cadarnhaodd Rachel Jones bod gwaith yn parhau ar ddatblygu'r Datganiad o Sefyllfa'r Farchnad a fydd yn galluogi rhanddeiliaid a darparwyr i gyflenwi yn erbyn bylchau a nodwyd yn y farchnad. Amlygwyd bod nifer o fesurau allweddol, rhagolygon poblogaeth a demograffeg yn cael eu datblygu ar gyfer pob cymdogaeth / ardal clwstwr meddygfa ar draws yr ôl-troed bwrdd iechyd, a fydd yn cael eu defnyddio i lunio blaenoriaethau a datblygiadau cyfalaf. Mae asedau lleol hefyd yn cael eu mapio yn erbyn y data i nodi bylchau yn y ddarpariaeth a llunio datblygiadau yn y dyfodol, comisiynu a marchnata darpariaeth. Bydd hyn yn gweithredu fel templed ar gyfer dadansoddi yn erbyn grwpiau poblogaeth blaenoriaeth eraill fel rhan o'r datblygiad Cynllun Ardal i lunio cynlluniau darparu yn y dyfodol.</p> <p>Trafodwyd y pwyntiau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y cymorth i ganolbwyntio ar sylfaen tystiolaeth cymdogaeth / ardal leol i lunio blaenoriaethu yn y dyfodol • Yr angen i ailfeddwl sut rydym yn ail-alinio ein cyllid craidd i gefnogi gwahanol ffyrdd o weithio – yn lle'r ffocws anghymesur ar y Gronfa Gofal Integredig • Pwysigrwydd cynnwys darparwyr wrth ddatblygu'r ddogfen derfynol • Yr angen i sicrhau bod y cyfraniad Trydydd Sector yn cael ei gydnabod yn y Datganiad o Sefyllfa'r Farchnad. <p><u>Cyllidebau Cyfun</u> Cadarnhaodd Rachel Jones bod trafodaeth yn parhau mewn perthynas â'r gofyniad i ddatblygu cyllideb gyfun ar gyfer llety gofal erbyn Ebrill 2018. Mae'r Bwrdd Project, sy'n cynnwys partneriaid statudol, wedi gwneud cynnydd da ar gytundebau mewn egwyddor a fydd yn cael eu cyflwyno i Gabinetau ffurfiol a Bwrdd Iechyd y Brifysgol yn y misoedd nesaf.</p> <p>Ar sail tystiolaeth a roddwyd gan LIC a'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol, mae</p>	

	<p>gwaith hyd yn hyn wedi canolbwyntio ar lety gofal i bobl hŷn a'r consensws cychwynnol bod 2 gyllideb gyfun, Bwrdd Partneriaeth y Brifysgol gyda Chyngor Dinas Caerdydd a Bwrdd Iechyd y Brifysgol gyda Chyngor Bro Morgannwg. Roedd y dull hwn a gynigiwyd yn seiliedig ar gydnabod gwahaniaethau o ran aeddfedrwydd trefniadau a dulliau o ran strwythurau ffioedd. Bydd gwaith yn parhau i ddatblygu dull cyffredin o ran gosod ffioedd, contractio a chomisiynu trefniadau ar y gwasanaethau cwmpas a nodwyd.</p> <p>Ers i'r gwaith ddechrau, cafwyd llythyr gan y Gweinidog yn nodi y dylid cael cyllideb gyfun unigol ar draws y rhanbarth. Cadarnhawyd bod trafodaethau parhaus ar lefelau Gweinidogol a swyddogol ac ar draws y rhanbarthau eraill i esbonio'r disgwyliadau a fynegwyd yn llythyr diweddar y Gweinidog.</p> <p>Trafodwyd y pwyntiau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfrifoldebau cyrff sofran i wneud penderfyniadau sy'n sicrhau bod gwasanaethau'n ddiogel ac o fewn cyfyngiadau gwariant. • Yr angen i ranbarthau unigol allu rheoli'r cyflymder y mae'r gwaith yn cael ei wneud yn briodol o ran eu hanghenion a'r cyd-destun. • Yr angen i esbonio sut y bydd rhanbarthau yn cael eu cosbi os na fydd y gofyniad yn cael ei fodloni. • Yr angen am ymwybyddiaeth o ran sefyllfa Cymru gyfan i rannu dysgu. • Yr angen i gynnal y cyflymder cyfredol a pharhau'n gymesur i gyflawni gwelliant. • Yr angen am rybudd priodol a chyd-adolygu ar bob cam. • Yr angen i fod yn glir bod y gwaith ar y gweill i wella modelau gwasanaeth a darpariaeth ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth ac i wella bywydau pobl. • Yr angen i barhau i rannu gwybodaeth, ymddiriedaeth a dealltwriaeth, i alluogi cyd-symud tuag at integreiddio. • Y safbwynt Cymru gyfan nad yw un gyllideb gyfun ar draws yr holl wasanaethau yn gyflawnadwy o fewn yr amser a nodir. • Mae trafodaethau ar y gweill i ddyfeisio ymateb ar y cyd i lythyr y Gweinidog; caiff BPRh eu gwadd i ymateb i nodi eu hangen am berchnogaeth o'r gwaith. <p>Gwnaeth y BPRh y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • NODI'r diweddariadau a • CEFNOGI'r dull. • CYTUNWYD y byddai canlyniad y dialog Cymru gyfan mewn ymateb i lythyr y Gweinidog yn cael ei gaffael cyn ceisio newid ffocws cyfredol gwaith y gyllideb gyfun. <p>Cam gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Sicrhau ymglymiad y Trydydd Sector wrth ddatblygu Datganiad o Sefyllfa'r Farchnad. ➤ Cynnal 'briff gwyllo' ar ddialog cenedlaethol cyfredol mewn perthynas â'r llythyr Gweinidogol ar gyllidebau cyfun a hysbysu gwaith y bwrdd project fel sy'n ofynnol. 	<p>Rachel Jones</p> <p>Rachel Jones</p>
BPRh 054	<p>7. Y STRATEGAETH TAI POBL HŷN</p> <p>Gwnaeth Jane Thomas a Pam Toms gyd-gyflwyniad ar Tai Pobl Hŷn yng</p>	

	<p>Nghaerdydd a Bro Morgannwg, gan amlygu cyd-destun y boblogaeth hŷn gynyddol yn ogystal â manteision iechyd ac ariannol tai pobl hŷn penodol. Rhoddwyd data ar yr angen am lety fforddiadwy hygyrch yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg wedi'i baru yn erbyn y llety henoed a lloches dynodedig a chartrefi preswyl a nyrsio sydd ar gael ar draws y rhanbarth, gyda chostau cysylltiedig. Cafwyd trafodaethau ar y cyfleoedd ar gyfer cynyddu cyflenwad a'r ystod o wasanaethau ac addasiadau sydd ar gael i alluogi byw'n annibynnol. Cafodd cynlluniau'r dyfodol ar gyfer y ddau awdurdod lleol eu hamlinellu ac awgrymiadau eu gwneud ar gyfer gwaith partneriaeth ychwanegol.</p> <p>Trafodwyd y pwyntiau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y demograffeg gwahanol ar draws y rhanbarth • Mae'r ddau awdurdod yn ymchwilio p'un a oes angen darpariaeth gofal ychwanegol cynyddol, gan nodi'r costau cyfalaf a refeniw uchel cysylltiedig, neu p'un a ellir defnyddio'r llety lloches yn fwy hyblyg • Yr angen i wneud penderfyniadau strategol, gan nodi'r effaith ar benderfyniadau strategol y model anghenion a nodwyd a'r cymhorthdal sydd ar gael gan LIC • Caiff rhai costau llety eu diwallu gan fudd-daliadau tai, gyda gofal cymdeithasol a iechyd yn cael eu hariannu ar wahân • Yr angen i ddadansoddi'n agosach y data i nodi beth sy'n ofynnol i ddiwallu'r galw • Mae gwaith ar y gweill i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth wedi'u lleoli'n briodol • Y ddarpariaeth o fewn y Gronfa Gofal Integredig ar gyfer 2017/18 o £50,000 i gefnogi astudiaeth dichonoldeb ar y mathau o lety sy'n ofynnol • Y defnydd o fuddsoddiad cyfalaf i greu arbedion refeniw • Yr angen i gaffael neu waredu tir am werth is na'r farchnad er mwyn i ysgogi darpariaeth cyfalaf pellach • Pwysigrwydd integriti data a llywodraethu cadarn o ran sicrhau sut y caiff y data ei gyflwyno. • Yr angen i ddefnyddio data fel sail i ddatblygu asedau sefydlog priodol • Yr angen i ddatblygu dialog gyda phobl i alluogi mynediad i wasanaethau mewn ffordd y gellir ei chynllunio a'i rheoli, yn hytrach na mewn argyfwng • Pwysigrwydd y gwaith hwn i boblogaeth Caerdydd a'r Fro a'r angen i orchymyn y gwaith o gasglu data cysylltiedig. <p>Gwnaeth y BPRh y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • NODI'r diweddariad. <p>Cam gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Cysylltu â chydweithwyr yn yr adran tai a chomisiynu mewn perthynas â data o fewn y cyflwyniad. ➤ Ystyried y posibilrwydd o ymweld â rhai o'r llety fel rhan o gynllun gweithdy y BPRh. 	<p>Suzanne Clifton</p> <p>Yr Ysgrifenyddiaeth</p>
BPRh 055	<p>8. CRONFA GOFAL INTEGREDIG (CGI)</p> <p>Amlygodd y Cynghorydd Elsmore fod canllaw pellach a dderbyniwyd gan LIC wedi lleihau'r dyraniad rhanbarthol, ac mae gwaith wedi'i wneud i ddiwallu'r gyllideb ddiwygiedig.</p> <p>Gwnaeth Meredith Gardiner grynhoi'r sefyllfa a'r cynlluniau diweddaraf ar</p>	

	<p>gyfer 2017/18, gan amlygu bod enw'r gronfa wedi'i addasu o "canolraddol" i "integredig", ac mae'r blaenoriaethau wedi'u gosod ar gyfer y 3 blynedd nesaf, sef pobl hŷn, anabledau dysgu, plant ag anghenion cymhleth, awtistiaeth a Datrysiaeth Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru. Nodwyd bod y mwyafrif o'r projectau refeniw wedi perfformio y tu hwnt i dargedau a chyflawnwyd gwariant llawn ar draws y rhaglen ar ddiwedd Mawrth 2017.</p> <p>Diolchwyd yn ffurfiol i holl aelodau Bwrdd Rhaglen y Gronfa Gofal Integredig ar gyfer eu gwaith ar y cyd mewn ymateb i'r gofyniad ar gyfer cyllideb refeniw diwygiedig a oedd wedi'i ymgorffori i mewn i'r Cytundeb Ysgrifenedig yn dilyn y dyraniad llai gan Lywodraeth Cymru. Atodwyd y Cytundeb Ysgrifenedig i gael cadarnhad gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.</p> <p>Ystyriodd aelodau hefyd gynigion cyfalaf y Gronfa Gofal Integredig a oedd yn cael eu datblygu yn barod i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd Mehefin 2017. Roedd hyn yn cynnwys cymorth ar gyfer gwaith i lunio cynllun datblygu mwy strategol ar gyfer defnyddio arian cyfalaf y Gronfa Gofal Integredig dros y blynyddoedd dilynol. Amlygodd Rachel Jones bod Llywodraeth Cymru wedi nodi bod cyfalaf ychwanegol yn cael ei ddarparu ar gyfer tai gyda gofal integredig, sef £5m ar draws Cymru ym mlwyddyn 1, £15m ym mlwyddyn 2 a £20m ar gyfer blynyddoedd pellach.</p> <p>Gwnaeth y BPRh y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • NODI Adroddiad diwedd blwyddyn y Gronfa Gofal Integredig ar gyfer 2016-17; • NODI Sefyllfa Ariannol diwedd blwyddyn ar gyfer 2016-17. • NODI'r dyraniad CGI terfynol ar gyfer 2017-18; • CADARNHAU'r Cytundeb Ysgrifenedig a'r Cynllun Buddsoddiad Refeniw ar gyfer 2017-18. • NODI a CHYMERADWYO'r cynigion cyfalaf sydd ar y gweill ar gyfer cyllid CGI 2017-18. <p>Cam gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Terfynu cynigion cyfalaf y Gronfa Gofal Integredig i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd Mehefin 2017. ➤ Datblygu'r gwaith o reoli perfformiad projectau cyllid refeniw y Gronfa Gofal Integredig ar gyfer 2017-18. 	<p>Yr Ysgrifenyddiaeth</p> <p>Meredith Gardiner</p>
BPRh 056	<p>9. LLIF CLEIFION</p> <p>Rhoddodd Judith Hill ddiweddariad ar y sefyllfa gyfredol, gan nodi mai'r prif ffactorau cyfyngu cyfradd yw capasiti cartrefi gofal a diffyg argaeledd ar gyfer gwelyau i bobl hŷn gyda heriau iechyd meddwl, gyda'r olaf yn cael effaith negyddol ar y nifer o ddiwrnodau gwely a gollir. Cadarnhawyd bod partneriaid yn cydweithio i reoli'r mater hwn a bod llawer o waith amlddisgyblaeth ar y gweill. Mae hyfforddiant ar gyfer staff ward yn parhau'n flaenoriaeth benodol, gan ganolbwyntio ar nodi'n gynnar yr angen i ryddhau, mabwysiadu'r egwyddor cartref yn gyntaf, a sicrhau na ddylid cynnal asesiad gofal hir dymor mewn amgylchedd difrifol, ond dylai ddigwydd mewn lleoliad mwy priodol neu gymunedol.</p> <p>Cadarnhawyd bod gwaith helaeth ar y gweill ar osgoi mynediad. Amlygwyd bod adolygiad wythnosol o anghenion 200 o gleifion sydd angen cyrchfannau</p>	

	<p>rhyddhau diogel a phriodol. Hefyd, mae'r ymgyrch "End of Pyjama Paralysis" wedi'i lansio, gyda'r nod o atal dadglyfyrw cleifion yn yr ysbyty a gwella eu potensial i ddychwelyd adref.</p> <p>Nodwyd bod y data a gyflwynwyd yn yr adroddiadau diweddariad yn cynrychioli cyfrifiad diwrnod unigol ac ei fod wedi'i ddilysu gyda chydweithwyr o wasanaethau iechyd a chymdeithasol. Gofynnwyd i aelodau hefyd nodi bod y ffigurau 'cyfradd' a ddefnyddiwyd ar gyfer cymhariaeth rhanbarthol yn cael eu llunio gan nifer yr achosion o oedi o ran trosglwyddiadau ac ddim pobl dros 75 oed. Gall hyn fod yn bwysig wrth ystyried y gwasanaethau arbenigol a thrydyddol a gynigir gan rhanbarth Caerdydd a'r Fro a'r gwahaniaeth canlyniadol o ran cwmpas y gwasanaethau o gymharu â rhanbarthau eraill.</p> <p>Trafodwyd y pwyntiau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yr angen i sicrhau nad yw'r gwaith i wella achosion o Oedi o ran Trosglwyddiadau Gofal yn stopio – roedd angen ffocws cyson i adolygu ac ysgogi cynlluniau lleihau; • Mae gwelliant o ran perthnasau wedi galluogi dull partneriaeth cadarn; • Yr angen i gynnal dewisiadau tai fel blaenoriaeth ranbarthol i alluogi gwneud mwy o asesiadau mewn amgylcheddau priodol; • Yr angen am gymorth parhaus ar gyfer Rhyddhau i Asesu (D2A) ac integreiddio'r gweithlu; • Yr effaith ar oedi o ran trosglwyddiadau gan ddiffyg darpariaeth gofal cartref sydd ar gael; • Y gofyniad i fodolau cymunedol alluogi asesiad angen parhaus – mae'r gwaith Rhyddhau i Asesu wedi dangos gostyngiad sylweddol o ran angen hir dymor o ganlyniad i'r dull hwn; • Data yn datgelu nad yw 47% o gleifion yn Ysbyty Prifysgol Cymru a 23% o gleifion yn Ysbyty Prifysgol Llandochoau yn diwallu'r meini prawf ar gyfer bod angen gofal ysbyty. Roedd hyn yn cefnogi'r bwyslais ar y blaenoriaethau a nodwyd yn y cyfarfod hwn fel cael yr effaith fwyaf ar iechyd a lles pobl. • Bydd y Bwrdd Trawsnewid Gofal Heb Ei Drefnu yn adolygu'r uchod ac yn gweithio i sicrhau gostyngiad o ran hyd cyfartalog arhosiad ar y cyd â phroses ryddhau well, gan nodi bod gan yr unigolion sydd y tu ôl i'r data anghenion cymhleth ac amgylchiadau personol. <p>Gwnaeth y BPRh y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • NODI'r diweddariad. <p>Camau Gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Sicrhau bod y Dewisiadau Tai yn cael eu cadw fel blaenoriaeth ar gyfer ffocws parhaus gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol; ➤ Sicrhau bod gofynion y gweithlu yn cael eu cynnwys fel rhan o'r agenda Cartref yn Gyntaf; ➤ Sicrhau bod cyswllt parhaus gyda gwaith y Bwrdd Trawsnewid Gofal Heb Ei Drefnu i sicrhau bod cynllun cynhwysfawr, parhaus i barhau i leihau oedi o ran trosglwyddiadau gofal. 	<p>Yr Ysgrifenyddiaeth</p> <p>Yr Ysgrifenyddiaeth</p> <p>Judith Hill</p>
BPRh 057	<p>10. GWERTHOEDD CYMDEITHASOL</p> <p>Cadarnhaodd Rachel Jones bod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn mynnu sefydlu Fforwm Gwerthoedd Cymdeithasol i ddatblygu</p>	

	<p>dull a rennir i gefnogi darparwyr gwerthoedd cymdeithasol. Amlygwyd bod gweithdy a gynhaliwyd ym mis Mai 2017 wedi bod yn sail i ddatblygu Cylch Gorchwyl drafft, gan nodi bod y ffrwd gwaith yn cysylltu'n agos â blaenoriaethau'r BPRh.</p> <p>Trafodwyd y pwyntiau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yr angen i ynganu'r hyn nad yw'n rhan o'r persbectif gwerth cymdeithasol ac am esboniad ar pa gynnyrch a ddisgwylir o'r fforwm • Yr angen i ymgysylltu gymaint â phosibl i sicrhau bod gwerth ychwanegol • Yr angen i flaenoriaethu'r elfennau a fydd yn gwneud gwahaniaeth go iawn i ddinasyddion • Y rhyngwyneb â gwaith menter gymdeithasol a chomisiynu. <p>Gwnaeth y BPRh y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • NODI a CHYMERADWYO'r Cylch Gorchwyl ar gyfer y Fforwm Gwerth Cymdeithasol <p>Cam gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Derbyn diweddariad pellach ar waith yn gysylltiedig â'r Fforwm Gwerthoedd Cymdeithasol ym mis Hydref 2017. 	Yr Ysgrifenyddiaeth
BPRh 058	<p>11. EITEMAU AR GYFER GWYBODAETH</p> <p>NODODD y BPRh</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymgynghoriad Strategaeth Dementia Caerdydd a Bro Morgannwg – gwahoddiwyd aelodau'r BPRh i gyflwyno sylwadau fel rhan o'r ymgynghoriad • Pecyn Cymorth Cynllun Ardal • Taflen Crynodeb Partneriaeth – mae'r daflen hon hefyd ar gael ar y wefan os bydd pobl angen copi. 	
BPRh 059	<p>12. UNRHYW FATER ARALL</p> <p>Nid oedd unrhyw eitemau i'w trafod.</p>	